



Eisteddfod Ryngwladol yn cyhoeddi Llangollen Ar-lein #CysyllturByd 1 Mehefin - 11 Gorffennaf 2020

- O 1 Mehefin bydd Llangollen.TV - pleidleisio mewn cystadleuaeth ar-lein - mewn cydweithrediad â Rondo Media yn arddangos y gorau o gystadleuwyr dros 25 mlynedd mewn 5 categori
- Rhaglen ddogfen 90 munud ar S4C yn ystod wythnos yr Eisteddfod Ryngwladol
- *Heddwch a Harmoni: Byd gwâr yw ein byd o gân* neges o heddwch a chytgord wedi'i throsglwyddo o Gymru i'r byd, wedi'i hysgrifennu gan Mererid Hopwood

Mae'n bleser gan Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen gyhoeddi Llangollen Ar-lein #cysyllturbyd, a fydd ar gael i'w gwyllo am ddim rhwng 1 Mehefin ac 11 Gorffennaf, er mwyn sicrhau ein bod yn aros adref gyda'n gilydd ond yn parhau i hyrwyddo cymuned ryngwladol gysylltiedig yn ystod yr amseroedd anodd hyn.

Ym mis Mawrth, cyhoeddodd yr Eisteddfod Ryngwladol y dylid gohirio gŵyl 2020 oherwydd pandemig byd-eang COVID-19. Roedd y trefnwyr, fodd bynnag, yn benderfynol o barhau i gyflwyno profiad yr Eisteddfod Ryngwladol, a chanfod rhyw ffordd i'w chymuned ryngwladol o gyfranogwyr, perfformwyr, ymwelwyr a gwirfoddolwyr barhau i gadw mewn cysylltiad a dod at ei gilydd yn y cyfnod caled yma.

Dyweddodd Cyfarwyddwr Artistig yr Eisteddfod Ryngwladol, Edward-Rhys Harry: "Roedd yn teimlo'n hanfodol ein bod ni'n ceisio dod â'n cymuned fyd-eang ynghyd i rannu cerddoriaeth a dawnys ac, wrth gwrs, parhau â'n neges o heddwch a harmoni. Fel arfer ar yr adeg hon o'r flwyddyn, mi fyddai ein staff a'n gwirfoddolwyr a'r gymuned leol yn gweithio'n gyflym i roi'r ŵyl ar ei thraed, ac rydym hefyd wedi cael llawer o negeseuon gan gyfranogwyr tramor yn dweud wrthym gymaint y maen nhw'n ein colli ni a phrofiad yr Eisteddfod. Felly mewn rhyw ffordd eleni roeddem eisiau gallu cysylltu a rhannu ar blatfform gwahanol orau ag y gallem."

O heddiw ymlaen (1 Mehefin) gan weithio ar y cyd â'n partneriaid ym myd y cyfryngau, Rondo Media, bydd cynulleidfaoedd yn gallu gwyllo cystadlaethau a phleidleisio ar-lein am eu hoff foment ar lwyfan Llangollen.TV. Bydd y deunydd archif yn cael ei gyflwyno mewn pum categori: Corau Cymysg, Siambr ac Ieuencid; Unawdwyr Lleisiol a Chorau 'Barbershop'; Corau Plant; Grwpiau a Chorau Gwerin; a Dawns Oedolion ac Ieuencid. Cyhoeddir enillwyr y pleidleisio ym mhob categori yn ddyddiol yn ystod wythnos yr Eisteddfod (7-11 Gorffennaf).

Dyweddodd Gareth Williams, Rondo Media, "Dros yr wythnosau diwethaf rydym wedi bod yn pori drwy archif yr Eisteddfod, sy'n cynnwys 25 mlynedd o ffilm yn arddangos perfformwyr o



Llangollen

Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen
Llangollen International Musical Eisteddfod

57 o wahanol wledydd, a dros 10,000 o gystadleuwyr. Yn 2019, yn y cyfnod yn arwain at wythnos yr Eisteddfod, mi wnaethon ni gynnal pleidlais ar-lein i ddod o hyd fel Enillydd Pencampwr yr Enillwyr yng nghystadleuaeth Côr y Byd. Profodd hynny'n hynod boblogaidd ac felly roeddem yn gwybod bod awydd ymysg cynulleidfa graidd yr Eisteddfod Ryngwladol am rywbeth tebyg. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gydag S4C ers blynyddoedd lawer i rannu'r Eisteddfod Ryngwladol gyda chynulleidfaoedd y tu hwnt i Llangollen a ledled Cymru. Roeddem yn teimlo bod cyfuno cystadlaethau ar-lein gyda'r rhaglen ddogfen yn ffordd dda o roi profiad Eisteddfod Llangollen ychydig bach yn wahanol yn ystod yr amseroedd anodd hyn."

Yn ystod wythnos yr Eisteddfod, gall cynulleidfaoedd edrych ymlaen at gynnwys newydd i ategu'r ffilmiau o'r archif. Mae hyn yn cynnwys *Heddwch a Harmoni: Byd gwâr yw ein byd o gân*, geiriau'r bardd arobryn, **Mererid Hopwood**, sy'n canolbwyntio ar egwyddorion sefydlu'r Eisteddfod, sef y nod o ddod â chymunedau rhyngwladol ynghyd mewn heddwch a chytgord.

Dywedodd Edward-Rhys Harry, "Mae lluo o weithgareddau yn gysylltiedig â hyn, ar ddydd Mawrth, bydd y Neges Heddwch yn rhoi'r lle canolog i blant a phobl ifanc, felly bydd, i bob pwrpas, yn cymryd lle neges Diwrnod y Plant eleni. Bydd neges dydd lau yn rhoi lle canolog i amryw o ddigwyddiadau pwysig: neges gan ein Llywydd Terry Waite, y gwaith comisiwn newydd gan Mererid Hopwood, a fydd yn helpu i adrodd hyn, ynghyd â nifer o'n gwirfoddolwyr, plant a chyfranogwyr eraill, a chân o heddwch a gobaith."

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen i'w helpu gyda chydlynedd busnes trwy 2020, gan gynnwys cynllunio a pharatoi ar gyfer digwyddiadau 2021.

Dywedodd y Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, Eluned Morgan: "Mae Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen yn un o ddigwyddiadau mwyaf blaenllaw yr haf yng Nghymru ac rwy'n falch iawn y byddwn yn dal i allu cael profiad o'r wyl eleni trwy'r cyfryngau digidol. Mae'r arloesedd a'r creadigrwydd a ddangoswyd gan ein sector digwyddiadau a diwydiannau creadigol wedi bod yn rhagorol - ac mae'n caniatáu i bobl o bob cwr o'r byd ddod at ei gilydd a darparu llwyfan i rannu a dathlu yn ystod yr amseroedd digynsail hyn."

Mae'r pleidleisio'n agor heddiw ar Llangollen.TV ac yn cau ar 30 Mehefin 2020. Bydd mwy o fanylion y rhaglen a'r digwyddiadau yn cael eu rhyddhau dros yr wythnosau nesaf ar gyfryngau cymdeithasol a Llangollen.net.

-DIWEDD-



Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen
Llangollen International Musical Eisteddfod

Nodiadau i Olygyddion

Llangollen Ar-lein #CysyllturByd 1 Mehefin - 11 Gorffennaf 2020

Am ddim i'w gwyllo ar y llwyfannau digidol canlynol
Llangollen.tv
Llangollen.net
YouTube / Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen
S4C/ S4C Clic

I gael y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf dilynwch yr Eisteddfod Ryngwladol ar
Twitter @llangollen_Eist
Instagram @Llangollen_eisteddfod
Facebook @ Llangollen International Musical Eisteddfod

Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen

Mae Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen yn ŵyl flynyddol o gerddoriaeth, dawns a diwylliant, ac mae'n cynnwys cystadlaethau sy'n rhoi llwyfan i gorau a grwpiau dawns o bedwar ban byd. Sefydlwyd yr Eisteddfod Ryngwladol yn 1947, gyda'r nod o hyrwyddo heddwch ac ewyllys da rhwng cenhedloedd ac fe'i henwebwyd ar gyfer sawl gwobr, gan gynnwys Gwobr Heddwch Nobel. Mae'r Eisteddfod Ryngwladol yn elusen a gefnogir gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol. Am fwy o wybodaeth, ewch i www.llangollen.net

Rondo Media/Llangollen.TV

Mae Rondo Media yn un o brif gwmnïau cynhyrchu teledu annibynnol y DU. Gyda swyddfeydd yng Nghaernarfon, Porthaethwy a Chaerdydd, mae'n gwmni dibynadwy, hyderus, ac aml *genre* - sy'n cynhyrchu rhaglenni drama, chwaraeon, cerddoriaeth, digwyddiadau, feithiol ac adloniant. Mae Rondo wedi ennill sawl gwobr am ei gynyrchiadau gan gynnwys gwobrau Broadcast ac RTS am ei gyfres ddrama ar BBC1 *The Indian Doctor* a nifer o wobrau Bafta a Chyfyngau Celtaidd. Mae'n cyflogi dros 60 aelod o staff amser llawn a hyd at 120 o weithwyr rhan-amser a gweithwyr llawrydd ac ar hyn o bryd mae'n ehangu ymhellach i faes cynyrchiadau rhyngwladol a chynnwys aml-blattform digidol. www.rondomedia.co.uk

Mererid Hopwood

Bardd o Gymru yw Mererid Hopwood, ac yn 2001 hi oedd y ferch gyntaf erioed i ennill y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, enillodd y Goron yn 2003 a'r Fedal Ryddiaith yn 2008. Fe'i ganed yng Nghaerdydd, ac ar ôl graddio mewn Sbaeneg ac Almaeneg ym Mhrifysgol Aberystwyth, enillodd ddoethuriaeth mewn Llenyddiaeth Almaeneg o Goleg y Brifysgol, Llundain. Hi oedd Bardd Plant Cymru yn 2005. Enillodd ei chasgliad cyntaf o farddoniaeth, *Nes Draw*, categori Barddoniaeth Gymraeg Llyfr y Flwyddyn 2016 a chafodd ei dewis i Silff Lyfrau Cyfnewidfa Llen Cymru 2016. Mae wedi bod yn dysgu ym maes iaith a llenyddiaeth am lawer o'r deng mlynedd ar hugain diwethaf, ac ar hyn o bryd mae'n Athro Ieithoedd a'r Cwricwlwm Cymreig ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â press@llangollen.net